

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Mehefin 24ain, 2020 am 6.30yh.

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs Ll. Latham	E.W Nicholas
	W.D. Evans	I. Rh. Llewelyn	Mrs A. Evans
	Mrs K.D. L. Davies	Mrs S.E. Thomas	P.H. Roberts
	B. Rees		

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	D. Hopkins	C.J Harris	Mrs J.E. Collins
	A.W Jones		

723.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd R. A Davies wedi datgan buddiant gan ei fod yn Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybie.

Roedd y Cynghorydd E.W. Nicholas wedi datgan buddiant gan ei fod yn Llywydd Clwb Tennis Llandybie.

Roedd y Cynghorydd B. Rees wedi datgan buddiant gan ei fod yn Llywydd Clwb Bowlio Llandybie.

724.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 27^{ain}, 2020.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fai 27^{ain}, 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnod cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgor.

725.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

GOHEBIAETH

726.

Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau

Ni dderbyniwyd adroddiadau oddiwrth y Timau Plismona yn y Gymdogaeth.

727.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Llwybr Troed rhif 51/05 ym Monllwyn

Roedd y Clerc wedi'i hysbysu bod canghennau coed yn amharu ar welededd 3 o'r goleuadau llwybr troed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned. Roedd R Gleaves o Fonllwyn wedi tocio, yn foddhaol, y canghennau dan sylw am bris o £60.

ii) Llwybr Troed rhif 51/74 yn Llandybie – Coedfryn i Gaecoed

Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn oddiwrth aelod o'r cyhoedd bod blodau gwyllt wedi'u torri ar y llwybr troed hwn pan dorrwyd y tyfiant am y tro cyntaf ym mis Mehefin. Roedd y Clerc wedi ymateb gan hysbysu'r achwynydd bod hyn yn anffodus, ond bod nifer o gwynion wedi'u derbyn oddiwrth aelodau'r cyhoedd yn datgan ei bod hi'n anodd iawn ymbellhau'n gymdeithasol ar y llwybr troed hwn oherwydd ei fod, mewn manau, yn gul iawn. Roedd y contractwr wedi'i gyfarwyddo i sicrhau bod y llwybr mor llydan â phosib er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth, ond bod blodau wedi cael eu torri yn ystod y broses. Fel rhan o'i ymateb, roedd y Clerc wedi cynnwys copi o Gynllun Bioamrywiaeth y Cyngor.

b) Arolygu'r Coed

Roedd dyfynbrisiau am y gwaith sy'n weddill a darddodd o arolygu'r coed wedi'u derbyn oddiwrth 3 contractwr, ac roedd y contract wedi'i ddyfarnu i R Gleaves o Fonllwyn am bris o £970 heb godi TAW.

Penderfynwyd cadarnhau dyfarnu'r contract hwn.

c) Pafiliwn Saron

Roedd Amman Heating Services Ltd wedi cynnal y gwasanaeth technegol blynyddol ym mhafiliwn Saron am bris o £96, gan gynnwys TAW. Yn ystod y gwaith gwasanaethu darganfuwyd bod nam trydanol ar un o'r boeleri; mae thermostat newydd yn cael ei brisio a bydd angen ei amnewid unwaith ei fod wedi'i dderbyn.

ch) Parc Heol Spien

Tynnwyd nyth picwns o tu mewn i'r siglenni ym mharc Heol Spien gan gwmni difa plâu B Firm Pest Control.

d) Ffens ym mharc Penygroes

Derbyniwyd dyfynbrisiau oddiwrth 4 contractwr i osod 100 metr o ffensys ym mharc Penygroes, fel yr adnabuwyd ac a gytunwyd fel rhan o'r gyllideb Datblygu Cymunedol am 2020/21.

Derbyniwyd y dyfynbris mwayf cystadleuol oddiwrth gwmni MBP Fencing am bris o £8320 a TAW, a chytunwyd ar ddyddiad dechrau'r gwaith, sef Mehefin 20^{fed}. Ar ôl trafod y dyfynbris gyda'r Cadeirydd, cytunwyd bod y gwaith yn gallu dechrau cyn bod y Cyngor Llawn yn rhoi ei sêl bendith, er mwyn bod y gwaith yn ffitio'n hwylus i amserlen waith y contractwr.

Penderfynwyd cadarnhau dyfarnu'r contract.

dd) Ardrethi Annomestig – Cyfleusterau Cyhoeddus

Yn ystod 2019 hysbyswyd yr Aelodau na fyddai ardrethi yn cael eu codi ar yr adeiladau hyn ond, er gwaethaf bod y rheoliadau yn weithredol yn Lloegr, nid yw Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn, wedi pasio'r ddeddfwriaeth briodol. Roedd y Clerc wedi'i hysbysu bod hyn yn annhebygol o ddod i rym eleni felly, yn y cyfamser, dylid talu'r galwadau am dâl a bydd yr arian yn cael ei ad-dalu pan fydd y ddeddfwriaeth wedi'i phasio.

e) Costau Llogi

Roedd y Clerc wedi trafod gyda chynrychiolwyr o glwb Bowlio Llandybie, Clwb Tennis Llandybie a Chlwb Pêl-droed Ieunctid Saron ynghylch y cytundebau llogi a fyddai, fel arfer, yn cael eu llofnodi ym mis Ebrill bob blwyddyn, ond nad oeddent wedi'u cyhoeddi eleni oherwydd yr argyfwng Covid-19. Mae'r holl glybiau yn hynod ddiolchgar am gymorth ariannol y Cyngor ac yn cydnabod bod y gwaith sydd ei angen i baratoi'r ardaloedd, yn enwedig y grîn bowlio a'r cael pêl-droed yn Saron, yn broses parhaol a bod y gwaith cynnal a chadw wedi parhau trwy gydol y cyfyngiadau symud. Serch hynny, nid yw'r clybiau wedi chwarae eleni ac mae'r holl gynghreiriau wedi'u gohirio.

Penderfynwyd y dylid rhoi Cytundebau Llogi i'r tri mudiad, a hynny heb godi tâl, tan Fawrth 31^{ain}, 2021.

Yn ychwanegol, **penderfynwyd** y byddai Grîn Bowlio a Chyrtiau Tennis Llandybie yn dal ar gau, a byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

f) Diffibrilydd yng Nghlwb Rygbi Penybanc

Roedd y Clerc wedi trefnu bod mudiad Welsh Hearts yn gosod diffibrilydd, a ariennir yn llawn gan arian grant, yng Nghlwb Rygbi Penybanc. Roedd hyn yn dilyn cais gan y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies, a oedd ei hun wedi derbyn cais oddiwrth y clwb rygbi yn gofyn am ei chymorth i gyflenwi diffibrilydd gyda mynediad cyhoeddus i'r pentref.

Amlygwyd anawsterau diweddar, o ran cael mynediad at y diffibrilwyr yn Llandybie yn ystod argyfwng, a bydd y Clerc yn ysgrifennu at fudiad MyCariad, y mudiad a oedd wedi gosod y diffibrilwyr yn eu lle, i gadarnhau pwy sydd yn gyfrifol o ran cyfrifoldebau defnyddio a gwasanaethu'r teclynnau.

ff) Gilfach Iago

Roedd y cyfarfodydd a drefnwyd rhwng Celtic Energy a Chyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth a mis Ebrill wedi'u gohirio, ond roeddent wedi cynnal cyfarfod ar Fehefin 3^{ydd}, 2020 ac mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu i'w gynnal ar Orffennaf 1^{af}. Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd y Cyngor Cymuned yn derbyn diweddariad llawn ynghylch y cynnydd a wnelir.

g) Cyfleusterau Cyhoeddus

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi hysbysu'r Clerc eu bod yn bwriadu ail-agor cyfleusterau cyhoeddus canol dref o Fehefin 22^{ain}, 2020 ymlaen, ar yr amod bod trefniadau glanhau mwy trwyadl yn eu lle, a bod pobl yn cadw at y mesurau ymbellhau cymdeithasol. Y cyngor lleol fydd yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo Cyngor Cymuned, a **phenderfynwyd** cadw'r cyfleusterau cyhoeddus yn Llandybie ac ym Mhenygroes ar gau.

728.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn yn ystod mis Mehefin 2020 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, eu talu:

5182	V L Llewellyn	Ffi yr archwiliad mewnol 2019/2020	£540.00
5183	Cyngor Sir Caerfyrddin	Ardrethi ar gyfer y Siambr a'r Swyddfa 2020/2021	£1926.00
5188	EDF	MUGA Llandybie – Mai	£10.93
5189	EDF	Sied Fowlio Llandybie – Mai	£21.95
5190	Canslwyd		
5191	EDF	Parc Capel Hendre - Mai	£10.93
5192	EDF	Pafiliwn Saron - Mai	£25.82
5193	EDF	Pafiliwn Llandybie - Mai	£26.64
5194	N Thomas	Cynnal a chadw'r ardaloedd chwarae	£100.00
5195	R Gleaves	Clirio canghennau yn hongian uwchben Llwybr Troed rhif 51/05 ym Monllwyn	£60.00
5196	Comcen Supplies Ltd	Computer Inc i'r argraffydd	£45.60
5197	Amman Services Ltd	Heating Gwasanaethu'r boeler ym mhafiliwn Saron	£96.00
5198	Cyngor Sir Caerfyrddin	Ardrethi - Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybie 2020/2021	£465.45
5199	Cyngor Sir Caerfyrddin	Ardrethi - Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes 2020/2021	£422.65
5201	EDF	Parc Penygroes - Mai	£11.10

Cadeirydd

Mehefin 24^{ain}, 2020

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:

5184	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£97.70
5185	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mehefin 2	£2191.56
5186	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mehefin	£635.40
5187	Cyllid y Wlad	Mehefin 2020	£867.28
5200	Morgan and Morgan	Papur	£29.88
5203	Cydymffurfedd hsl	Gwasanaethau hylendid dŵr ym mhafiliynau Saron a Llandybïe – Ebrill / Mai 2020	£304.02
5204	Morgan and Morgan	Inc i'r argraffydd	£45.16
5205	SSE Swalec	Trydan yng Nghyfleusterau Cyhoeddus Llandybïe, 14/3/20 – 17/6/20	£46.00
5206	Jeff's Tipper Hire	Dyletswyddau hylendid dŵr yn y cyfleusterau cyhoeddus – Mehefin	£168.00
5207	Canslwyd		
5208	Lwfans y Cadeirydd	Taliad blynyddol	£300.00
5209	Dwr Cymru	Cyfleusterau Penygroes- 6/12/19 to 24/6/20	£234.37

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol - 1/4/20 i 31/5/20

2020/21	Gwariant	
Amcangyfrif	gwirioneddol	
£	£	hyd yn hyn
180,000	60,000	Prasept
150	19	Llog: Lloyds
400	0	Llog: cyfrifon buddsoddi
		Hawliau Tramwy
3000	3,000	Cyhoeddus
4700	0	Cytundebau Llogi
<u>188,250</u>	<u>63,019</u>	
45,889	7,388	Staffio
		Tir ac
17,650	908	adeiladau
		Gwasanaethau
4,750	1,686	Swyddfa
3,100	0	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a
10,000	849	Thanysgrifiadau
	1200	Adran 137
}		
		<hr/> Cadeirydd

18,000	0	Taliadau yn unol â phwerau eraill
	0	Mannau agored cyhoeddus
	0	Neuaddau pentref
	0	Claddfeydd
}		Hawliau Tramwy – cynnal a chadw
10,000	170	Hawliau Tramwy – gwelliannau
	0	Torri porfa/ sbwriel/ cyfleusterau
28,000	0	Atgyweirio ac amnewid yn y parciau
50,000	2,220	Goleuo cyhoeddus - ynni
}	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliant
8,500	0	
28,000	840	Datblygu Cymunedol Cyfleusterau
13,000	336	Cyhoeddus
<u>236,889</u>	<u>15,597</u>	
	47,422	Balans am y flwyddyn (cyfnod)
	337,001	d/y
<u>0</u>	<u>384,423</u>	c/y

		Arian parod a buddsoddiadau
	383,239	Dyledwyr
	1,184	Credydwyr
	0	
	<u>384,423</u>	

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

(iii) Adroddiad yr archwilydd mewnol ar gyfer 2019/20

Roedd y Clerc wedi darllen adroddiad a sylwadau'r Archwilydd Mewnol, a oedd yn datgan bod yr holl ofynion rhagnodedig o ran systemau rheoli mewnol y Cyngor wedi'u cwblhau yn foddhaol. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r archwiliad yr oedd angen eu doddi gerbron y Cyngor ac roedd yr adran benodol o'r ffurflen wedi'u chwblhau gan yr archwilydd mewn modd a oedd yn adlewyrchu ei ganfyddiadau.

Yn ychwanegol, roedd yr Archwilydd wedi dweud bod y cofnodion ariannol yn dal i gael eu cynnal i safon broffesiynol uchel, a bod y trywydd archwilio yn un ardderchog.

Roedd yr Archwilydd wedi argymhell bod Cofrestr Asedau y Cyngor yn cael ei diweddarau er mwyn adlewyrchu'r offer ychwanegol a brynwyd i'w osod yn y parciau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo adroddiad yr archwilydd mewnol, ac i gadarnhau'r gofrestr asedau newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol am yr adroddiad archwilio ardderchog hwn.

(iv) Argymhelliad Llywodraethu Blynyddol 2019/20

Roedd yr Aelodau wedi ymateb i'r Clerc wedi iddo ddarllen y cwestiynau Llywodraethu Blynyddol oddiar y ffurflen archwilio. **Penderfynwyd** cofnodi'r rhain ar y Ffurflen Flynyddol fel y dwedwyd.

(v) Argymhelliad adroddiad ariannol blynyddol 2019/20

Penderfynwyd cadarnhau'r ffigyrau ariannol blynyddol a restrwyd ar y ffurflen, a bod y Clerc a'r Cadeirydd yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen yn y blychau priodol. Yna byddai'r ffurflen, ynghyd â'r papurau ategol, yn cael ei hanfon at gwmni Grant Thornton, yr archwilwyr allanol.

(vi) Ail-benodi archwilydd mewnol

Penderfynwyd ail-benodi Mr Lyn Llewellyn yn archwilydd mewnol ar gyfer 2020/21.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

729.

Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2019/2020

Roedd y Cynghorydd R.A Davies, a oedd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd yn ystod 2019/2020, wedi cyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r cyfarfod. Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf sydd wedi'i gyflwyno gan y Cyngor gan fod, erbyn hyn, dyletswydd arno i gyhoeddi cynllun blynyddol ac i gynnwys cynllun gweithredu cymunedol sydd yn atgyfnerthu'r gwaith a wnelir ar bob lefel er mwyn diwallu anghenion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sy'n cysylltu'n uniongyrchol gydag amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Bydd yr adroddiad ar gael i'w ddarllen ar wefan y Cyngor.

730.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Roedd y Cynghorydd Mrs Ll. Latham wedi mynychu dwy seminar arlein ar themau Hiliaeth a Chaethwasiaeth Fodern.

731.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Orffennaf 29^{ain}, 2020.

732.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.25 yh.